# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-09-08 (p2): 11 Mehefin 2008

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Derbyniwyd llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf fel gohebiaeth. Lle mae'n berthnasol, mae copïau o ohebiaeth wedi eu cynnwys fel atodiad PET(3) 09-08 Papur 2A i'r papur hwn.

### (i) P-03-073: Gwastadeddau'r Rhyl

**Geiriad y ddeiseb**

'Mae'r rheini ohonom sydd wedi llofnodi isod, sy'n cynrychioli cymuned busnes Twristiaeth a Phreswylwyr Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn, yn gofyn bod y Cynulliad Cenedlaethol, fel mater o gryn brys, yn ceisio ffyrdd o atal gweithrediadau Npower yn Constable Point a'r cyffiniau ger Rhos-Point, lle y maent yn bwriadu lleoli Fferm Wynt ar y Môr (4-5 milltir o'r lan) a chynnal ymchwiliad llawn i weithredoedd NPower ynghylch eu rhan ym mhrosiect Fferm Wynt 'Gwastadeddau'r Rhyl'.

**Cefndir**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 21 Chwefror 2008, a chlywodd dystiolaeth gan y deiebwyr ar 6 Mawrth 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai wedi ymateb.

Mae'r ymateb wedi'i atodi fel PET(3) 09-08 Paper 2A.

### (ii) P-03-095: Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol

**Geiriad y Ddeiseb**

Deiseb ynghylch 'drafft Ymgynghori ar Adolygiad Cyntaf Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. (Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru)

Rydym ni drigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili, sydd wedi arwyddo isod, yn deisebu Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud trefniadau fel bod ymgynghori priodol â phobl y Fwrdeistref a'u bod yn cael gwybod yn iawn am Gynllun Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru

(Hydref 2007)

trwy:

1. Ymestyn dyddiad cau ymgynghoriad Awdurdod Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru i 29 Chwefror 2008 neu nes y bydd ymgynghori priodol wedi bod â phobl y Fwrdeistref . 2. Sicrhau bod cyfarfodydd cyhoeddus ynghylch y Cynllun yn cael eu trefnu yng Ngogledd, De, Dwyrain a Gorllewin Bwrdeistref Caerffili. 3. Sicrhau bod 'hawliau' pobl Bwrdeistref Caerffili yn cael eu diogelu o dan y system gynllunio ffurfiol, fel nad yw Ceisiadau Cynllunio ar gyfer cyfleusterau gwastraff yn cael eu cymeradwyo trwy ddefnyddio'r weithdrefn Tystysgrif Cyfreithlondeb (CLOPUD) fel yr awgrymir yn nogfen ddrafft Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (mis Hydref 2007). 4. Sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu ar gyfer dyrannu safleoedd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn ei Gynllun Datblygu Lleol. 5. Sicrhau bod Awdurdod Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru'n atal cyfleusterau gwastraff o bob parc busnes neu barc diwydiannol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn wyneb y sŵn, yr arogleuon, yr effaith ar draffig a'r perygl ymddangosiadol i iechyd sy'n gysylltiedig â hwy.

**Cefndir**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 17 Ionawr 2008, a chlywodd dystiolaeth gan y deiebwyr ar 06 Mawrth 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb, a mae'r ymateb wedi'i atodi fel rhan o papur PET(3) 09-08 Paper 2A.

### (iii) P-03-106 'Pride in Barry'

**Geiriad y Ddeiseb**

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod, sef arweinwyr busnes a chymuned tref y Barri, yn datgan y dylai Rhaglen Adfywio ardal y Barri Fwyaf gael sicrwydd a pharhad cyllid priodol, digonol ac amserol am y 10 mlynedd nesaf er mwyn parhau i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol a pharhau â'r gwaith da a'r gwelliannau a wnaed hyd yma. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw buddiolwr cyllid o werthiant tir ar lan y dwr yn y Barri, oddeutu £60 miliwn a chredwn y dylai ymrwymo i ail-fuddsoddi cyfran fawr o'r arian hwnnw yn y Barri.

Mae'r deisebwyr felly yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru alluogi cymuned y Barri i gymryd perchnogaeth o'i dyfodol, drwy ei

rhyddhau o natur gylchdroawl cystadlaethau ansicr sy'n cael eu hysgogi'n ganolog a'u noddi gan grantiau ac nad ydynt yn rhoi atebion lleol i broblemau lleol, a galluogi ateb ymrwymiad ariannu hirdymor sy'n gymesur â'r arian sydd i'w dderbyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o werthiant y tir ar lan y dwr yn y Barri.

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan 'Pride in Barry'. Mae'r sefydliad yn cael ei ddisgrifio fel:

'cymdeithas o sefydliadau gwirfoddol, awdurdodau lleol ac eraill sydd wedi dod at ei gilydd er mwyn ymdrechu i wella eu hamgylchedd lleol'

Y Prif ddeisebwr yw Mr Paul Haley, Cadeirydd "Pride in Barry". Mae'r sefydliad wedi casglu 214 o lofnodion.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 10 Ebrill 2008, a chlywodd dystiolaeth gan y deiebwyr ar 24 Mawrth 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb, a mae'r ymateb wedi'i atodi fel rhan o papur PET(3) 09-08 Paper 2A.

## (iv) P-03-107 Papur Dyddiol Cymraeg

**Geiriad y Ddeiseb**

Galwn ar Lywodraeth Cymru i wireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Gymru'n Un: 'Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg' Galwn am gyhoeddiad newydd gan y llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg, yn unol â'r ymchwil sydd wedi ei wneud gan sefydliadau profiadol yn y maes'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb yma gan Cymdeithas yr Iaith Cymraeg. Mae'r sefydliad wedi casglu dros 1,000 o enwau mewn cyfnod o bythefnos. Y prif ddeisebwr ydi Hywel Griffiths, cadair Cymdeithas yr Iaith Cymraeg..

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 10 Ebrill 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb, a mae'r ymateb wedi'i atodi fel rhan o papur PET(3) 09-08 Paper 2A.

**(v) P-03-114 Ffyrdd Diogel i Ysgolion**

**Geiriad y Deiseb**

Mae'r disgyblion yn Ysgol Uwchradd Whitchurch  yn galw ar Llywodraeth Cynulliad Cymru i neud ffyrdd sydd ddu allan i ysgolion yn fwy diogel'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jonathan Morgan AM ar ran disgyblion Ysgol Uwchradd Whitchurch. Y prif ddeisebwr ydi Mrs Andrew Sandiford, athrawes yn yr Ysgol.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 10 Ebrill 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb, a mae'r ymateb wedi'i atodi fel rhan o papur PET(3) 09-08 Paper 2A.

## (vi) P-03-115 Arbedwch Draeth y Sger

## Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gwrthwynebu'r lefelau caniataol o garthu sy'n digwydd ym Môr Hafren er anfantais i draethau lleol h.y. Traeth y Sger'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gyngor Cymuned Corneli mewn gwrthwynebiad i'r colli tywod cynyddol ar Draeth y Sger.  Cafwyd 1,757 o lofnodion ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 24 Ebrill 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb, a mae'r ymateb wedi'i atodi fel rhan o papur PET(3) 09-08 Paper 2A

## (vii) P-03-117 Arbedwch ein Traethau - Gwyr

## Geiriad y Ddeiseb

'Monitro effaith amgylcheddol carthu tywod o Helwick Bank

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn hynod siomedig bod trwydded wedi'i chaniatáu ar gyfer carthu tywod o Helwick Bank. Gofynnwn yn daer i Asiantaeth yr Amgylchedd gomisiynu gwaith monitro annibynnol ar effaith amgylcheddol y gwaith carthu hwn, y telir amdano gan Llanelli Sand Dredging Ltd. Byddai'n amhriodol i'r cwmni carthu gomisiynu ei waith monitro ei hun, ond dylid ei orfodi i dalu amdano.'

## Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gymdeithas Ceidwadwyr y Gwyr.  Cafodd y ddeiseb   3,500 o lofnodion.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 24 Ebrill 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb, a mae'r ymateb wedi'i atodi fel rhan o papur PET(3) 09-08 Paper 2A.